COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 2 TACHWEDD 2017, AM 4.00 PM

Presennol

Y Cynghorydd RM James – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | DG Howells | B Sedgebeer | G Thomas |
| SR Vidal | KJ Watts | CA Webster | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SG Smith a/ac E Venables

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

115. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

116. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd dyddiedig 13 Gorffennaf 2017 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

117. ADRODDIAD DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad, a hysbysodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW), mewn perthynas â lefel ac ystod y gydnabyddiaeth ariannol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gwneud ar gael i'w Aelodau ar gyfer blwyddyn 2018/19 y Cyngor.

Rhoddodd yr adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndir, a gwybodaeth am Reoliadau'r Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 a ddarparwyd i sefydlu'r IRWP, a sut roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ymestyn cyfrifoldebau'r Panel a'i bwerau (o dan Adran 142) i benderfynu ar daliadau i Aelodau o awdurdodau lleol.

Yna esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod cynrychiolwyr yr IRWP yn cynnal ymweliadau â'r holl brif Gynghorau yn 2017, i drafod y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol, a sut roedd yn cael ei weithredu ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Ychwanegodd fod 52 o benderfyniadau arfaethedig Adroddiad Blynyddol yr IRWP 2018/19 wedi'[u dangos yn Atodiad 1 i'r adroddiad a'u rhannu yn adrannau priodol er eglurder rolau/taliadau a awgrymir ac ati.

Yna aeth y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ymlaen i amlinellu cynigion CBSP o ran sut roedd yn dymuno penderfynu lwfansau i'r holl Aelodau, gan gynnwys y rhai ar gyfer uwch-gyflogau, y Weithrediaeth, Cadeiryddion Pwyllgorau, Arweinwyr Grŵp yr

wrthblaid, uchafswm nifer yr uwch gyflogau ac, yn olaf, ar gyfer cyflogau Dinesig. Amlinellodd gweddill yr adroddiad rywfaint o wybodaeth arall yn ymwneud ag Aelodau lleol fel y cynhwysir ym mhenderfyniadau'r IRWP ar gyfer 2018/19, a rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd grynodeb o bob un o'r rhain er budd y Pwyllgor.

Yna eglurodd i'r Aelodau'r farn gan bob Aelod o'r Awdurdod a gafodd ar benderfyniad yr IRWP, ac roedd y rhain yn gyffredinol fel a ganlyn, ynghyd â'r farn a fynegwyd gan Aelodau'r Pwyllgor eu hunain:-

1. Cyffredinol
Derbyniodd grwpiau Llafur a Phlaid Cymru ynghyd â rhai o'r aelodau annibynnol benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

2. Ymweliad gan y Panel
Mae'r Cyngor o'r farn bod ymweliad y Panel â phob Awdurdod Lleol yn gyfle amhrisiadwy i amrywiaeth o Aelodau Etholedig unigol drafod rhai o'u problemau'n ymwneud â'r gydnabyddiaeth yn uniongyrchol ag Aelodau'r Panel. Ystyriwyd ei bod yn fuddiol i'r arfer hwn barhau o leiaf unwaith yn ystod tymor y swydd.

3. Cyflog Sylfaenol
Mynegodd y Pwyllgor ei bryderon bod y cynnydd yn y Cyflog Sylfaenol yn fwy na'r cap cyflog o un y cant yn y sector cyhoeddus a'i fod yn trin Aelodau Etholedig yn wahanol i gyflogeion yr Awdurdod Lleol. Deallwyd y gallai Aelodau Etholedig ddewis ymwrthod â rhywfaint o'u cyflog er mwyn cysoni eu cynnydd cyflog â'r cap cyflog sector cyhoeddus ond ystyriwyd bod y gwahaniaeth mewn cynnydd cyflog yn anfon y neges anghywir am nad oedd y sector cyhoeddus mewn sefyllfa i dderbyn cynnydd uwch mewn cyflog ac yna dewis ymwrthod â rhywfaint o'u cyflog wedyn.

4. Rhannu Swydd
Roedd y Pwyllgor o'r farn er y gall rhannu swydd fod yn fuddiol i rai unigolion, gallai'r trefniadau rhannu swydd greu anawsterau o ran llywodraethu ac atebolrwydd. Pe bai trefniadau rhannu swydd yn cael eu rhannu yn ystod wythnos h.y. 2.5 diwrnod fel aelod o'r cabinet a 2.5 diwrnod fel aelod ward, byddai hyn yn creu dryswch o ran pwy oedd yn gwneud y penderfyniadau a phryd. Awgrymwyd bod rhagor o fanylion yn cael eu darparu i egluro pa rolau fyddai'n cael eu hystyried fel rhai sy'n addas ar gyfer rhannu swydd a sut y byddai'r rhai sy'n rhannu swydd yn cynnal llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol.

5. Ad-dalu costau Gofal
Cafodd y newidiadau i Ad-dalu Costau Gofal eu croesawu ac roedd y Pwyllgor o'r farn bod y newidiadau hyn yn debygol o annog mwy o ddefnydd o'r cyfleuster hwn. Roedd Aelodau'r Pwyllgor hefyd o'r farn bod unrhyw anghenion gofal arbenigol fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol cael ymrwymiad hirdymor gan yr Aelod Etholedig i'r darparwr gofal na fyddai'n caniatáu llawer o hyblygrwydd. Byddai hyn fel arfer yn atal unrhyw anghenion gofal penodol rhag cael eu darparu ar fyr rybudd gan arwain at yr Aelod Etholedig yn methu cyflawni ei rôl yn effeithiol.

6. Cynorthwyo gwaith Aelodau Etholedig yr Awdurdod Lleol
Codwyd amrywiaeth o opsiynau y gellid eu harchwilio er mwyn ymestyn y cymorth presennol a ddarperir i Aelodau Etholedig. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid ailsefydlu'r Fforwm TGCh Aelodau Etholedig er mwyn adolygu'r cymorth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd i'r Aelodau Etholedig ac adolygu effeithiolrwydd y ddarpariaeth TGCh. Rhagwelwyd y byddai'r adolygiad yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb a oedd yn digwydd ar hyn o bryd. Y gobaith oedd y byddai unrhyw ganlyniadau o'r adolygiad yn cael eu gweithredu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Yn dilyn trafodaeth bellach ar yr eitem hon, ychwanegodd Aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y sylwadau canlynol:-

Cyffredinol

- Lleihau nifer Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol?
- Llai o gyflogau uwch-swyddogion. Mae 18 o 54 o Gynghorwyr yn ormod.
- Llai o aelodau'r Cabinet?
- Rwyf wedi darllen adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru ac nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud heblaw fy mod yn derbyn ei argymhellion.
- Derbyniodd y Grŵp Llafur benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Cyflog Sylfaenol

- Aelodau nad oes ganddynt incwm heblaw am eu cyflog cynghorydd (yn enwedig aelodau iau) – fel gyda myfyrwyr sy'n mynd i'r Brifysgol, efallai y dylid ystyried profion modd.
- Dylai cynghorwyr gael eu talu am ei bod bendant yn rôl fwy heriol nag a ddychmygwyd gan Aelodau newydd. Gobeithiwyd nad oedd y rhan fwyaf o Gynghorwyr yn arfer eu rôl fel aelod lleol am y lwfans yn unig.
- Oherwydd bod cyfyngiad 5 mlynedd ar dymor Cynghorydd tan etholiad arall, teimlwyd mai ychydig iawn fyddai'n rhoi'r gorau i'w "gwaith bob dydd" i fod yn Gynghorydd am ychydig dros £13,000 y flwyddyn. Felly, nid yw'n denu pobl alluog, ifanc a dynamig i'r rôl fel y dylai wneud. Mae'r rhai sy'n dod yn Gynghorwyr yn gorfod cyflawni'r rôl hon gyda'u cyflogaeth barhaol a daw rheoli amser yn broblem.

Uwch Gyflog

- Gormod o gynnydd ariannol o gyflog Sylfaenol i Uwch Gyflog.

Cynorthwyo gwaith Aelodau Etholedig Awdurdod Lleol

- Efallai na fydd gan rai aelodau fynediad i'r rhyngrwyd a/neu'n methu argraffu gartref felly rhaid talu am y costau o'u “cyflog” ac felly'n lleihau fforddiadwyedd mynd i gyfarfodydd y cyngor/cynnal dyletswyddau cynghorydd.

Ad-dalu Costau Teithio a Chynhaliaeth ar Fusnes Swyddogol

- Os nad yw aelodau'n gallu defnyddio'u trafnidiaeth eu hunain mae hyn yn arwain at yr angen i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Os ydynt yn byw mewn ardal lle nad oes llwybrau bysiau neu ddim bysiau o gwbl yna mae angen teithio mewn tacsi.
- Lleihau costau teithio gan wneud mwy o ddefnydd o alwadau cynadleddau a Skype/Facetime

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

- Mae'r cynllun pensiwn yn rhy hael o lawer

Taliadau i Aelodau o Gynghorau Cymuned a Thref

- Y £500 i Gynghorwyr Tref (rydym ni fel Cyngor Tref wedi dewis ymwrthod â'r taliad hwn) fel ar gyfer y £150 a awgrymwyd ar gyfer y ffôn a manion bethau. Gobeithio nad oes unrhyw Gynghorydd Tref yn manteisio ar y taliad hwn sy'n rhy hael.

PENDERFYNWYD:(1) Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lefel ac amrywiaeth y gydnabyddiaeth y mae'n rhaid i'r Awdurdod sicrhau ei bod ar gael i'w Aelodau ar gyfer blwyddyn 2018/19 y Cyngor, a darparodd y sylwadau uchod fel rhan o ymateb yr Awdurdod, i Adroddiad Blynyddol Drafft 2018/19.

(2) Bod yr Aelodau Pwyllgor canlynol yn cael eu henwebu i eistedd ar y Fforwm TGCh Aelodau Etholedig wedi ei ailsefydlu, ac aros am dri enwebiad arall, gyda'r enwebiadau hyn yn cael eu ceisio gan bob grŵp gwleidyddol arall sy'n ffurfio'r Cyngor:-

Y Cynghorydd Bridie Sedgebeer
Y Cynghorydd Gary Thomas
Y Cynghorydd Sadie Vidal

118. STRATEGAETH DYSGU A DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad er mwyn i Aelodau allu ystyried y Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig ddrafft a atodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a chynnig diwygiadau priodol i hyn a chymeradwyo ei chyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 28 Tachwedd 2017. Byddai hyn yn cyfrannu at waith y Cyngor i ennill statws Siarter CLILC ar gyfer Cymorth a Datblygu Aelodau

Rhoddodd yr adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndir, gan gadarnhau bod y Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig 2012-17 wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor yn 2013.

Roedd adolygiad desg o'r Strategaeth wedi'i gynnal yn ddiweddar er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben a'i ddiweddaru lle y bo angen i adlewyrchu nifer o ffactorau a oedd wedi newid ers cymeradwyo'r Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig wreiddiol.

Rhoddodd adran nesaf yr adroddiad wybodaeth i Aelodau mewn perthynas â'r meysydd canlynol:-

- Digidoleiddio ac e-ddysgu
- Cynghorwyr a etholwyd yn 2017
- Cyfanswm y Cyfleoedd Dysgu a Datblygu

Yna esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y Strategaeth arfaethedig wedi'i rhannu yn 5 cam, ac roedd manylion y rhain i'w gweld ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.

Yna amlinellodd rhan nesaf yr adroddiad y prosesau Datblygu Aelodau yr oedd yn ofynnol i Gynghorwyr gymryd rhan ynddynt, er mwyn datblygu eu rôl, a dosbarthwyd y rhain fel Hanfodol, Argymhellir a Dewisol.

Yna cynigiodd paragraff 4.9 o'r adroddiad fwy o ddefnydd o gyfleusterau e-ddysgu wrth symud ymlaen, a dulliau lle gallai'r rhain chwarae rhan sylweddol yn y rhaglen gyffredinol ar gyfer Datblygu Aelodau yn y dyfodol.

Gwnaeth Aelod y pwynt y byddai angen i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 gael ei hystyried yn ofalus yn y dyfodol ac integreiddio â'r gwaith roedd Aelodau'n ei wneud fel rhan o'u rolau a chyfrifoldebau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y byddai hon yn gydran allweddol ym mhob adroddiad i Bwyllgorau yn y dyfodol, ac felly byddai'n ymwneud yn uniongyrchol â phrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor yn y dyfodol.

Gwnaeth Aelodau hefyd annog rôl mentora Cynghorwyr llai profiadol gan yr Aelodau mwy profiadol a sefydledig yn y dyfodol, a phwysigrwydd hyfforddi yn nhymor y swydd bresennol ar gyfer pob Aelod o'r Cyngor.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn:-

(1) Ystyried y cynigion a gynhwysir yn yr adroddiad a'r Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig a atodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a chytuno ar y cynigion hyn.

Cymeradwyo'r Strategaeth ar gyfer y cyfnod 2017-22 i'r Cyngor i'w chymeradwyo yn ei gyfarfod a drefnwyd ar gyfer 29 Tachwedd 2017.

119. ADOLYGU DISGRIFIADAU RÔL AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad, a diben yr adroddiad oedd:

- Cyflwyno’r Disgrifiadau Rôl Aelodau Etholedig i’w hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- Gofyn i'r Pwyllgor gynnig unrhyw ddiwygiadau a all fod yn ofynnol i’r Disgrifiadau Rôl Aelodau Etholedig a chytuno ar y diwygiadau hyn
- Cymeradwyo cyflwyno’r Disgrifiadau Rolau Aelodau Etholedig y cytunwyd arnynt i’r Cyngor i’w cymeradwyo yn ei gyfarfod a drefnwyd ar gyfer 20 Rhagfyr 2017.

Cyfeiriodd at baragraff 4.1 o’r adroddiad, a bod y priod Ddisgrifiadau Rôl Aelodau Etholedig wedi’u datblygu o’r disgrifiadau rôl enghreifftiol a baratowyd gan CLILC a’u teilwra i ofynion y rolau a wneir gan Gynghorwyr yn CBSP. Ychwanegodd fod disgrifiadau rôl ychwanegol wedi’u datblygu gan y Swyddogion ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ar gyfer Mentor yr Aelod a Llywodraethwr Ysgol yr ALl. Roedd y rhain wedi’u hatodi yn Atodiadau 1 – 19 yn gynhwysol, i’r adroddiad, ac roedd Atodiad 20 yn rhoi manylion disgrifiad rôl generig ar gyfer cynrychiolwyr Cyrff Allanol.

Cyfeiriodd adran nesaf yr adroddiad at rolau Portffolio Unigol, a rhoddodd paragraff 4.3 o’r adroddiad wybodaeth mewn perthynas â Siarter CLILC ynghylch Cymorth a Datblygu Aelodau a amlinellodd fod aelodau’n cael eu cefnogi gan ddisgrifiadau rôl, fel y dangoswyd ym mharagraff 4.3.1 o’r adroddiad. Byddai’r rhain yn cael eu defnyddio hefyd fel rhan o Adolygiad Datblygu Personol yr Aelod penodol.

O ran goblygiadau ariannol yr adroddiad, cadarnhaodd y byddai angen cyfieithu disgrifiadau rôl yr Aelodau Etholedig am gost fras o £480, gyda'r holl weithgareddau a nodwyd yn yr adroddiad yn cael eu cyllido o'r ddarpariaeth gyllideb bresennol.

Gofynnodd Aelod y gallai fod yn ddefnyddiol os yw'n bosibl fonitro faint o aelodau'r cyhoedd sy'n cyrchu adran Gymraeg gwefan y Cyngor, mewn perthynas â'r wybodaeth a baratoir yn ddwyieithog gan yr Adran Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n cysylltu â thîm Bridgenders yn CBSP ynglŷn â hyn.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:

(1) Ystyried yr holl Ddisgrifiadau Rôl Aelodau amrywiol fel yr atodir yn Atodiadau i'r prif adroddiad a chytuno ar y rhain a'u derbyn.

(2) Nodi'r canllawiau i Gyrff Allanol fel y'u dangosir yn Atodiad 20 i'r adroddiad.

Cymeradwywyd yn amodol ar 8.1.1 ac 8.1.2 o'r adroddiad, bod y disgrifiadau rôl diwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn cael eu cymeradwyo ar 20 Rhagfyr 2017

120. DIWEDDARIADAU GWASANAETH A PHERFFORMIAD

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad er mwyn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar berfformiad gwasanaethau a ddarperir i Aelodau Etholedig.

Roedd yr adroddiad yn cwmpasu'r meysydd gwasanaeth a nodir isod, a gwnaeth y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ymhelaethu ar y rhain yn ogystal â nodi'r pwyntiau amlwg i'w rhannu ag Aelodau, a oedd yn cynnwys canran presenoldeb Aelodau yn y digwyddiadau hyn:-

- Nifer yr Atgyfeiriadau Aelodau (1 Gorffennaf – 30 Medi 2017);
- Gweithgareddau Sefydlu/Rhaglen Datblygu Aelodau (ers yr etholiadau lleol);
- Gweithdai Aelodau;
- Briffio cyn y Cyngor;

Cadarnhaodd yr adroddiad fod hyfforddiant TGCh unigol wedi'i ddarparu hefyd i'r Aelodau hynny a oedd wedi gofyn am hyn.

Yn atodedig i'r adroddiad yn Atodiad 1, roedd Rhaglen Datblygu Aelodau ddrafft. Nododd hyn y sesiynau Datblygu Aelodau a drefnwyd i'w cyflawni eleni.

Yna rhoddodd Paragraff 4.2.6 o'r adroddiad fanylion am bynciau a gynlluniwyd ar gyfer eu cynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau, ac roedd paragraff 4.2.7 yn rhestru eitemau posibl i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau.

O ran y cyntaf, roedd yr Aelodau'n teimlo y dylai'r eitem o ran Hyfforddiant Mentora Aelodau gael ei symud ymlaen o fis Ebrill 2018 i'r mis nesaf neu ddechrau 2018.

Mewn perthynas â'r eitemau a awgrymwyd ar gyfer y Rhaglen Datblygu Aelodau, roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai'r tair sesiwn yn ymwneud ag Awtistiaeth gael eu huno yn un sesiwn fwy.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y gallai Aelodau flaenoriaethu'r rhain o ran eu trefnu yn ystod y misoedd nesaf, cyn gynted ag y byddent yn cael rhagor o wybodaeth am y pynciau, yn ogystal â phenderfynu pa eitemau y dylid eu cario ymlaen i Ebrill 2018 – Mawrth 2019. Roedd Aelod o'r farn y byddai'n fuddiol pe gallai eitem 'Cyflwyniad i Fudd-daliadau Lles' gael ei hychwanegu at y Rhaglen Datblygu Aelodau yn y dyfodol, a chytunodd yr Aelodau i hyn.

Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y gallai rhai sesiynau hyfforddi/datblygu Aelodau gael eu cynnwys fel rhan o ddigwyddiadau "Gornest Gron".

Roedd rhan nesaf yr adroddiad yn cynnwys pynciau e-ddysgu a awgrymwyd i'w cynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau, yn ogystal ag unrhyw bynciau y gellir eu hystyried yn addas ar y wefan Dysgu a Datblygu neu wefan AWA.

Yna roedd paragraff 4.2.11 o'r adroddiad yn cynnwys pynciau a gynlluniwyd ar gyfer briffiadau cyn y Cyngor sydd ar y gweill, ac roedd yr Aelodau o'r farn y dylai Aelodau Seneddol gael eu lobïo ar yr eitem mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol, gan fod hwn yn bwnc hynod bwysig a fyddai'n cael effaith sylweddol ar etholwyr. Roedd Aelod o'r farn y dylai eitem gael ei hychwanegu at yr atodlen hon ar bwnc Cymoedd i'r Arfordir, er mwyn gallu gwahodd Prif Weithredwr newydd y sefydliad hwn a'i gyflwyno i'r Aelodau.

Yna amlygodd Paragraff 4.2.13 o'r adroddiad feysydd Cynllunio lle byddai hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, ond nodwyd y gallai'r holl Aelodau fynd i'r sesiynau hyfforddi hyn pe baent yn dymuno hynny.

Rhoddodd adran nesaf yr adroddiad fanylion am weddarlledu cyfarfodydd Pwyllgor, a chadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mai'r bwriad oedd gweddarlledu tua 10 cyfarfod Pwyllgor y flwyddyn.

Rhoddodd gweddill yr adroddiad wybodaeth am bynciau I-Call ac Archwilio Mewnol – Cymorth i Aelodau Newydd.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad, yn amodol ar ei sylwadau uchod.

121. <u>BLAENRAGLEN WAITH</u>

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd adroddiad, er mwyn hysbysu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am yr eitemau arfaethedig a gaiff eu hystyried yn ei gyfarfodydd dilynol.

Manylwyd ar yr eitemau arfaethedig i'w cynnwys fel rhan o'r flaenraglen waith yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Dangosodd Paragraff 4.5 o'r adroddiad ar ffurf fformat Tabl, amserlenni dros dro y disgwyliwyd eu bodloni ar gyfer yr eitemau ynddynt, yr oedd yn ofynnol eu bodloni er mwyn cyflawni cais yr Awdurdod am Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol (CLILC) yn 2018.

Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r eitem o 'Nodi a hyfforddi Mentoriaid posibl i Aelodau Etholedig,' a oedd yn ofynnol i'w gyflawni erbyn 30 Ebrill 2018 er mwyn bodloni statws y Siarter, gael ei hystyried mewn cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r cyfarfod hwn gael ei gynnull ym mis Ionawr 2018, fel bod yr holl fusnes a amserlennwyd ar gyfer y Pwyllgor yn y Rhaglen o Gyfarfodydd presennol tan fis Mai 2018, yn cael ei gymhwyso a'i brosesu'n ddigonol, yn enwedig er mwyn i'r Pwyllgor

adolygu prosesau ar gyfer yr Adolygiadau Datblygu Personol (PDRs), Adroddiadau Blynyddol, ynghyd â'r cynlluniau ar gyfer Mentora Aelodau. Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r cyfarfod hwn gael ei ychwanegu at y cylch presennol ym mis Ionawr 2018 neu oddeutu'r adeg honno.

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried y flaenraglen waith arfaethedig atodedig fel Atodiad i'r adroddiad.

Bod yr Aelodau'n argymell i'r Cyngor bod cyfarfod pellach o'r Pwyllgor yn cael ei gynnull rywbryd ym mis Ionawr 2018, er mwyn ystyried unrhyw eitemau busnes ychwanegol ar hyd y llinellau a nodwyd yn yr adroddiad ac a drafodwyd yn y cyfarfod.

122. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.10 pm